



## Cyngor Cymuned Pentir

### Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 13eg o Fehefin 2024 Yng nghanolfan Gymunedol Glasinfryn am 7.00 Agenda

1. Presennol: /Present
2. Ymddiheuriadau: Apologies
3. Cyflwyniad/anerchiad – Presentation Cefin Roberts
4. Datgan buddiant / Declaration of interest
5. Derbyn cofnodion / Accept Minutes 21ain o Fai / May 2024
6. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising
7. Materion ariannol / Financial Issues
  - i. Mantolen ariannol / Financial report
  - ii. Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 29/05/2024
8. Cynllunio / Planning

C24/0435/25/LL 15, Llys y Fedwen Ffordd Gelli Morgan Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4BL AParcio gorlif newydd (9 Llecyn) fel estyniad i'r maes parcio presennol ger Llys y Fedwen
9. Materion y Clerc / Topics from the Clerk
  - Ethol Is-Gadeirydd
  - Mabwysiadu Polisiau
  - Rhyddhau Fwybodaeth / F O I
  - Seddi gwag Ward Glasinfryn a Faenol
  - Yswiriant Adnewyddu
  - Capel y Fynwent Amcanbris
  - Fynwent yr Eglwys Ymateb
  - Calendr 2024-25 Cyngor Pentir Cyflwyno
  - Ctrwydded Gamlins/ Cyngor Gwynedd Ganolfan / Ysgol y Faenol
10. Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics
  - Cyng B Jones Cais i gynghorwyr Fynychu'r Gynhadledd Arfer Arloesol yn Llanelwedd ar ddydd Mercher y 3ydd o Orffennaf 2024
  - Cyng I Ellis Diweddariad ar gael bin sbwriel wrth Cysgodfan Bryn Ogwen Cael arwyddion rhag baw cwn yn ardal Coed y Maes Penrhos



## Cyngor Cymuned Pentir

### Cofnodion cyfarfod Cyngor Llawn Nos Fawrth 21ain o Fai 2024

11. **Presennol: /Present** Cadeirydd, Cyng I Ellis Cyng B Jones Cyng A Joyce, Cyng J Pierce, Cyng L A James Hefyd yn bresennol, E Jones Clerc a'r cyfieithydd S E Jones
12. **Ymddiheuriadau: Apologies** Cyng D Jones- Morris Cyng E Roberts, Cyng M Baines Cyng C Owen, Cyng J Griffithsa
13. **Datgan buddiant / Declaration of interest** Cyng A Joyce a Cyng L A James yn datganeu bod yn ymddiriedolwyr Canolfan Gymunedol Penrhos pan fydd trafodaeth dan eitem 8 Ganolfan/Ysgol y Faenol Cyng L A James hefyd yn cynrychioli y Cyngor ar fwrdd Llywodraethwyr ysgo, Y Faenol
14. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 14eg o Fawrth / March 2024**

Derbynwyd fel cofnod cywir ar gynnig Cyng B Jones gafodd ei eilio gan y Cyng J Pierce
15. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**

Esboniodd y Cadeirydd yr hoffai ychwanegu bod Cyngor Gwynedd yn ei farn o wedi diystyru ei sylwadau hyd yma ag mae oherwydd hynny 'roedd yn gwrthod cymeryd cyfrofoldeb am y sefyllfa

**Cymen** bellach yn bilio yn fisol yn hytrach nag am bob eitem sy'n ei gwneud yn haws gyrru cofnodion yn gynt i'w cyfieithu na disgwyl a'i anfon gyda'i gilydd

**Y Clerc i anfon a rhannu y cofnodion mor fuan ag sydd bosib iddo wneud hynny o gofio hefyd mae swydd rhan-amser ydi swydd y Clerc**

Bu trafodaeth os oedd ei oriau yn ddigonol ag iddo geisio monitro am fis ond o gofio nad ydi unrhyw fis fel ei gilydd a bod yr amser yma o'r flwyddyn yn eitha dwys

**Templed Cofrestr Risg** Nodwyd fod awgrym wedi ei wneud y dylai'r gofrestr Risg fod yn fwy trwyadl ag mewn mwy o fanylder

Esbonwyd oherwydd amgylchiadau personol a phofedigaeth nad oedd yr Is-Grwp wedi cyfarfod ond ychwanegwyd hefyd mae dilyn canllawiau/templed gan Unllais Cymru oedd y Cyngor wedi ei wneud ers blynyddoedd ag bod sawl Cyngor Cymuned arall yn defnyddio yr un canllaw / templed

**Gofynwyd i'n Cynrychiolydd sy'n mynychu cyfarfodydd Unllais wneud ymholiadau hefyd yn eu cyfarfod nesaf**

Mynegwyd pryder ynglyn a beth yn union ddylai Cyngorydd ei ddatgan wrth ddatgan buddiannau h.y. Oes angen datgan **e.e Lleoliad gwaith / Cyflogwr**

**Eto gofynwyd i'n Cynrychiolydd sy'n mynychu cyfarfodydd Unllais wneud ymholiadau hefyd yn eu cyfarfod nesaf**
16.
  - i. **Mantolen ariannol / Financial report** Manolen ariannol diwedd Ebrill wedi ei chynnwys yn y pecyn ddsbarthwyd ag yn dangos £27,354.80 yn y Cyfrif cyfredol yn dilyn derbyn ad-daliad TAW a £40,981.38 yn y Cyfrif Cadw
  - ii. **Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 24/04/2024**

Drafft cofnodion IBC Ebrill wedi eu rhannu hefyd ynghyd ag adroddiad Ariannol Derfynnol 2023-24 oedd wedi ei derbyn oddiwrth ein cyfrifwyr

### 17.Cynllunio / Planning



## Cyngor Cymuned Pentir

C24/0305/18/CR Fferm Tŷ'n Llwyn Lôn Tŷ'n Llwyn, Pentir, Bangor, Gwynedd, LL57

4DY Addasu rhan o adeiladau fferm yn dy annedd

### Cais wedi ei dynnu yn ol

C24/0303/18/LL Fferm Tŷ'n Llwyn Lôn Tŷ'n Llwyn, Pentir, Bangor, Gwynedd, LL57

4DY Newid defnydd ac addasu rhan o adeiladau fferm i dy annedd

### Cais yma hefyd wedi ei dynnu yn ol

#### 18. Materion y Clerc / Topics from the Clerk

- **Sedd Wag Ward Glasinfryn**  
Cytunwyd bydd angen hysbysebu y sedd ar ein Gwefan
- **Yswiriant Trafod pris adnewyddu**  
Pris adnewyddu wedi cyrraedd ond yn amlwg nad oedd Yswiriant y Ganolfan wedi ei ychwanegu felly gofynwyd i'r Clerc wneud ymholiada hefo Gallagers/Hiscox/Axa
- **Capel y Fynwent** Gwaith concrit y llawr wedi ei gwblhau ond angen rwan symud ymlaen i gael amcanbris am gael gorffeniad addas  
**Clerc i Gysylltu a Cwmni gosod lloriau i gael prisia**
- **Fynwent yr Eglwys Cais am gyfraniad tuag at glirio**  
Cais am nawdd yn dal ar y bwrdd ond y gwaith bellach wedi ei gwblhau gan gontractwr **Mater i'w drafod yn IBC Mai**
- **Cae chwarae Caerhun Ymchwiliad Mis Mehefin**  
RoSPA wedi cadarnhau y bydd yr archwyliad yn cael ei wneud yn ystod Mehefin
- **Goleuadau Nadolig Penrhos**  
Er bod cadarnhad/cytundeb wedi ei wneud nol yn Rhagfyr 2023 i osod goleuadau ar 6 lamp ni fu posib gwneud hynny oherwydd prinder goleuadau Mae bellach fwriad i ymestyn y 6 yn ddeuddeg ag mae disgwyl derbyn map o'r ardal i fedru adnabod y lampau stryd
- **Panel Hanesyddol Sgwra Pentir** Mae'r panel bellach yn disgwyl cael ei osod a bwriad gan y grwp Parchu Pentir i gynnal seremoni swyddogol i'w ddadorchuddio gyda presenoldeb o'r Cyngor
- **Calendr 2024-25 Cyngor Pentir**  
Bydd y Cyngor Llawn yn cyfarfod yn Glasinfryn yn ystod yr haf sef Mis Mehefin Gorffennaf a Medi hefo'r gweddill yn cael eu cynnal yn Penrhos  
IBC i gyd yn cael eu cynnal yn Penrhos  
**Clerc i gwblhau y Llawlyfr am y flwyddyn**
- **Cyfarfod Gamlin's Ganolfan/Ysgol y Faenol**  
**Gadawodd Cyng L A James a'r Cyng A Joyce yr ystafell oherwydd iddynt ddatgan buddiant**  
Esboniaodd y Cadeirydd fod y Clerc wedi derbyn cais gan Gyfreithwyr y Cyngor yn dilyn derbyn gohebiaeth o Cyngor Gwynedd.  
Gohebiaeth oedd yn cynnig telerau ar gyfer sefydlu Trwydded fyddai yn galluogi Rhieni disgyblion Ysgol y Faenol ddefnyddio maes parcio y Ganolfan yn ystod oriau gollwng a chodi plant i ag o yr Ysgol.  
'Roedd Gamlins' yn awyddus i drafod y telerau hefo dirpwyath o'r Cyngor i unai dderbyn – gwrthod neu gynnig gwelliannau  
'Roedd y cyfarfod hwnnw wedi bod a gwelliannau wedi ei cynnig i Gamlins fynd yn ol at Cyngor Gwynedd Amlinnellwyd y gwelliannau



## Cyngor Cymuned Pentir

Byddai Gamlins yn mynd yn ol i gynnig y gwelliannau hynny

Dychwelodd y ddau Gynghorydd oedd wedi gadael a rhoddwyd amlinnelliad o'r hyn drafodwyd yn eu absenoldeb

### 19. Materion y Cyngorwyr / Councilors Topics

Cyng L A James            Cais wedi ei dderbyn o Parchu Pentir i fabwysiadu eu bocsus blodau sydd yn Rhydygroes a Pentir    **Cytunwyd i'w Cais a Clerc i chwilio am brisiau i adnewyddu'r Bocsus**

**Cyng L A James** Hefyd yn adrodd fod Cais dan ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wedi ei dderbyn ynglyn ag Ysgol Glan Menai.

Mae'n holi am wybodaeth am drafodaethau ynglyn a'r safle o cyn 2012

Nodwyd fod y Clerc a hitha wedi traelio amser yn ein Storfa yn edrych drwy hen gofnodion oedd yno cyn dechra eu cyhoeddi ar ein Gwefan

Ni chanfyddwyd dim cyn 2012 gan fod yr Ysgol bryd hynny yn eiddo Cyngor Gwynedd.

Mae cyfeiriadau mewn cofnodion o 2021 ymlaen yn trafod hawl tramwyo ar hyd y ffordd sy'n mynd heibio'r hen Ysgol

**Cyng L A James** Parchu Pentir wedi holi os oedd posib cael golwg ar y broblem parcio ar y llecyn gwyrdd yn Rhydygroes

**Clerc am ofyn am ymweliad safle hefo Swyddog Traffig Cyngor Gwynedd a Cyng J lewis**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15